---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig ac yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2001, yn diwygio Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001 a Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) 1999 i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

**2.** Mae'r Rheoliadau'n gweithredu —

(a) Penderfyniad y Comisiwn 2000/285/EC sy'n diwygio Penderfyniad 91/516/EC a sefydlodd restr o gynhwysion y gwaherddir eu defnyddio mewn porthiant (OJ Rhif L94, 14.4.2000, t. 43), a

(b) Cyfarwyddeb 2000/16/EC y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor sy'n diwygio Cyfarwyddeb 79/373/EC ynghylch marchnata porthiant cyfansawdd (OJ Rhif L105, 3.5.2000, t. 36), a

(c) Cyfarwyddeb y Cyngor 96/25/EC ynghylch cylchrededg deunyddiau porthiant (OJ Rhif 125, 23.5.1996, t.35).

**3.** Mae'r Rheoliadau —

(a) yn diwygio mesurau ynghylch marchnata porthiant cyfansawdd a chylchredeg deunyddiau porthiant (rheoliad 6);

(b) yn diwygio mesurau ynghylch rheoli porthiant cyfansawdd er mwyn gwahardd defnyddio deunydd o brosesau trin gwastraff (rheoliad 10);

(c) yn ychwanegu'r tri Rheoliad Comisiwn newydd (sy'n gymwysadwy yn uniongyrchol) a bennir isod at y rhestr a geir yn Rhan IX o Atodlen 3 i Reoliadau Porthiant (Cymru) 2001 (rheoliad 14). Dyma Reoliadau newydd y Comisiwn —

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2437/2000, (OJ Rhif L280, 4.11.2000, t.28).

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2697/2000, (OJ Rhif L319, 16.12.2000, t.1).

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 418/2001, (OJ Rhif L62, 2.3.2001, t.3).

(ch) yn gwneud mân ddiwygiadau teipograffyddol ac amryw o ddiwygiadau eraill i'r ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli.

**4.** Mae arfarniad rheoliadol ar gyfer y Rheoliadau hyn wedi'i baratoi yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac wedi'i osod yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 1, Southgate House, Caerdydd CF10 1EW.